



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

**Dysgu ac Addysg Proffesiynol
Parhaus: Fframwaith ar gyfer
gweithwyr cymdeithasol yng
Nghymru**

Gofynion y Rhaglen Gadarnhau
i Weithwyr Cymdeithasol
Newydd Gymhwyso

Tachwedd 2018



Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Cyswllt â chofrestru gweithwyr cymdeithasol....	3
Gofynion y rhaglen.....	3
Cais i gymeradwyo rhaglen.....	4
Sicrhau ansawdd.....	4
Canlyniadau Dysgu'r Rhaglen Gadarnhau i Weithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwyso.....	5

Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@gofal
cymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol
© 2019 Gofal Cymdeithasol Cymru
ISBN: 978-1-911463-90-0

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

1. Cyflwyniad

Mae'r fframwaith Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus (DAPP) yn disgrifio'r trefniadau sylfaenol ar gyfer addysg a dysgu parhaus gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru. Mae wedi'i ddylunio i gefnogi gweithwyr cymdeithasol wrth iddynt ddatblygu ac ymgymryd â swyddogaethau a chyfrifoldebau newydd drwy gydol eu gyrfaedd fel gweithwyr cymdeithasol.

Mae pob rhaglen sydd yn y fframwaith wedi'i dylunio er mwyn helpu gweithwyr cymdeithasol i ddatblygu eu hymarfer proffesiynol.

Y Rhaglen Gadarnhau yw rhan gyntaf y fframwaith DAPP. Mae hefyd yn rhan o'r fframwaith *Tair Blynedd Gyntaf o Ymarfer* sy'n ceisio cefnogi gweithwyr cymdeithasol wrth iddynt bontio o fod yn raddedigion i fod yn ymarferwyr cymwys.

Mae'r Rhaglen Gadarnhau yn rhoi cyfleoedd i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso gydgrynhoi a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn tri maes craidd o ran ymarfer gwaith cymdeithasol:

- dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau
- cydweithio â phobl sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill
- ymyrryd a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth.

Cyswllt â chofrestru gweithwyr cymdeithasol

Rhaid i bob dysgwr sydd ar y Rhaglen Gadarnhau fod yn weithiwr cymdeithasol sydd wedi'i gofrestru ar hyn o bryd gyda Gofal Cymdeithasol Cymru neu un o'r cyrff eraill sy'n rheoleiddio gwaith cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig (DU).

Rhaid i weithwyr cymdeithasol sydd wedi cymhwyso ar neu ar ôl 1 Ebrill 2016 gwblhau Rhaglen Gadarnhau wedi'i chymeradwyo o fewn y cyfnod cofrestru tair blynedd cyntaf lle maen nhw'n ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol.

Gofynion y rhaglen

• Mae'r Rhaglen Gadarnhau yn Gwrs Penodol a Enwir fel sy'n cael ei ddiffinio yn Rheolau Cymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau Ôl-gymhwyso i Weithwyr Cymdeithasol (Cymru) 2018. O ganlyniad, rhaid i raglenni gadw at y rheolau cyffredinol ar gyfer dyfarniadau ôl-gymhwyso yn ogystal â'r gofynion penodol hyn.

• Bydd rhaid i raglenni gydymffurfio â gofynion sicrhau ansawdd Gofal Cymdeithasol Cymru.

• Rhaid i raglenni gael eu cymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru.

• Bydd y dysgu'n arwain at isafswm o 30 gredydau ar lefel 6 (lefel graddedigion) *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*.

• Rhaid i ddarparwyr rhaglenni ddangos bod y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys yn y strategaeth ar gyfer asesu'r rhaglen.

• Rhaid cael hyblygrwydd o ran dulliau darparu a chyfleoedd i ddysgu e.e. drwy ddefnyddio dysgu ar-lein.

• Rhaid i asesiadau o ymarfer dysgwyr ar y Rhaglen gael eu gwneud gan weithiwr cymdeithasol cofrestredig sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso mewn gwaith cymdeithasol ac sydd naill ai:

- yn cefnogi dysgu a datblygiad staff proffesiynol eraill fel rhan o'i rôl; neu

- wedi cael cymhwyster priodol mewn asesu.

• Bydd y gwaith o asesu dysgwyr yn bodloni gofynion asesu penodol a bydd yn seiliedig ar dystiolaeth amrywiol, gan gynnwys unigolyn/unigolion proffesiynol cymwys yn arsylwi'n uniongyrchol ar hyfedredd ymarfer gyda phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth.

• Rhaid i gyrff cydnabyddedig¹ sy'n cynnig y dysgu achrededig roi trawsgrifiad o'u cynnydd ar y rhaglen i'r dysgwyr.

• Bydd gan gyrff cydnabyddedig drefniadau i gydnabod credydau a gafwyd tuag at y Rhaglen Gadarnhau drwy Raglenni Cadarnhau eraill sydd wedi cael eu cymeradwyo yn unol â'r *Fframwaith Credydau a Chymwysterau*.

Cais i gymeradwyo rhaglen

Mae'r Côt Ymarfer i Gyflogwyr Gofal Cymdeithasol yn rhoi cyfrifoldeb ar gyflogwyr i: "Ddarparu a chefnogi cyfleoedd dysgu a datblygu i alluogi gweithwyr gofal cymdeithasol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau".

Disgwylir felly y bydd cyflogwyr gwaith cymdeithasol yn arwain y gwaith o ddatblygu'r Rhaglen Gadarnhau. Mae manylion ynglŷn â sut i wneud cais i gymeradwyo rhaglen i'w gweld yn y rheolau cyffredinol. Cyn y gallant gael eu cymeradwyo rhaid i bob rhaglen fodloni'r gofynion a'r canlyniadau dysgu a gyhoeddwyd ar gyfer y rhaglen. Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu gwybodaeth ac arweiniad i gyflogwyr a'r partneriaid y maent wedi'u dewis wrth ddatblygu eu rhaglenni.

Sicrhau ansawdd

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn rheoleiddio, ac yn sicrhau safon yr holl Raglenni Cadarnhau fel sy'n cael ei nodi yn y rheolau cyffredinol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-gymhwys.

Rôl Gofal Cymdeithasol Cymru yw sicrhau cydymffurfiaid â'r rheolau cyffredinol ar gyfer hyfforddiant ôl-gymhwys a'r rheolau penodol a amlinellir yn y ddogfen hon er mwyn hybu safonau cyson ac uchel ym mhob rhaglen.

Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymarfer ei swyddogaeth reoleiddio drwy gymeradwyo rhaglenni, eu monitro'n rheolaidd a'u hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fodloni'r gofynion ar gyfer cael eu cymeradwyo. Bydd gweithgaredd sicrhau ansawdd yn cynnwys darparu gwybodaeth ystadegol am ymgeiswyr a'r rhai sy'n cwblhau'r rhaglen.

Troednodyn

1. Diffinnir Cyrff Cydnabyddedig yn y rheolau cyffredinol ar gyfer hyfforddiant ôl-gymhwys fel:

- Sefydliadau Addysg Uwch;
- Sefydliadau Dyfarnu sy'n cael eu cydnabod gan yr Adran Addysg a Sgiliau; a
- Sefydliadau sydd wedi cael eu cydnabod i bennu a/neu ddyfarnu credyd Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd dan Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru.

Canlyniadau Dysgu'r Rhaglen Gadarnhau i Weithwyr Cymdeithasol Newydd Gymhwys

Teitl	1. Dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau
Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr yn:	Meini prawf asesu Gall y dysgwr:
1.1 Deall sut y defnyddir fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chanllawiau fel sail i ymarfer asesu	1.1.1. Amlinellu'r fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, safonau a chanllawiau sy'n sail i ymarfer asesu mewn gwaith cymdeithasol; 1.1.2. Gwerthuso'r berthynas rhwng ymarfer asesu a: <ul style="list-style-type: none">• fframweithiau deddfwriaethol;• safbwyntiau damcaniaethol;• safonau;• canllawiau a phrotocolau; 1.1.3. Dadansoddi sut mae dulliau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd yn dylanwadu ar ymarfer a phrosesau asesu; 1.1.4. Dadansoddi sut mae ei ymarfer asesu yn cefnogi gwaith cymdeithasol sy'n seiliedig ar ganlyniadau.
1.2 Gallu defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ac ar ganlyniadau, i wneud asesiadau amrywiol er mwyn hybu a chefnogi llesiant	1.2.1. Gweithio mewn ffordd gyfannol ac mewn partneriaeth â phobl i'w galluogi i nodi, egluro a mynegi eu cryfderau, eu hanghenion a'r canlyniadau y maent yn dymuno eu gweld; 1.2.2. Dangos wrth asesu bod gwerthoedd gwaith cymdeithasol, y Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a Chanllawiau Ymarfer i weithwyr cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio; 1.2.3. Cynnwys sensitifrwydd at ddiwylliant ac iaith yn ei ymarfer gan gynnwys y cynnig rhagweithiol yng nghyswllt yr iaith Gymraeg; 1.2.4. Gweithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn cynnal asesiad amlddisgyblaethol gan ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ac ar ganlyniadau; 1.2.5. Defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ac ar ganlyniadau, i asesu: <ul style="list-style-type: none">• cryfderau unigolyn;• anghenion unigolyn;• anghenion gofalwr;• eu hamgylchiadau;• risg a phosibiliadau rheoli risg. 1.2.6. Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn ffyrdd creadigol o: <ul style="list-style-type: none">• nodi canlyniadau;• adeiladu ar gryfderau, gallu a chyflawniadau;• cael atebion;• sicrhau newid;• hybu llesiant.
1.3 Gallu cofnodi gwybodaeth asesu fel sail i wneud penderfyniadau.	1.3.1. Egluro sut y defnyddir gwybodaeth sydd wedi'i chofnodi i gefnogi dadansoddi a gwneud penderfyniadau; 1.3.2. Cadw cofnodion ysgrifenedig ac electronig sy'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, polisiâu a gweithdrefnau presennol; 1.3.3. Dangos bod cofnodion asesu cywir, effeithiol, cydlynol a dadansoddol yn cael eu cwblhau; 1.3.4. Dadansoddi'r canlyniadau posibl mewn achosion lle nad oes cofnodion cywir, effeithiol, cydlynol a dadansoddol;

Teitl	1. Dadansoddi wrth asesu er mwyn llywio ymyriadau
Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr yn:	Meini prawf asesu Gall y dysgwr:
1.4 Gallu ffurfio barn broffesiynol ar sail gwybodaeth asesu	<p>1.4.1. Dadansoddi gwybodaeth asesu amrywiol fel sail i farn broffesiynol;</p> <p>1.4.2. Ffurfio barn broffesiynol am farn a dewisiadau unigolyn, ei anghenion, cryfderau, risgiau a ffactorau amddiffynnol;</p> <p>1.4.3. Egluro sut mae ystyriaethau moesegol yn dylanwadu ar ein penderfyniadau;</p> <p>1.4.4. Egluro'r sail resymegol dros ei farn broffesiynol ei hun;</p> <p>1.4.5. Cyfiawnhau ei farn broffesiynol ei hun, sy'n ystyried:</p> <ul style="list-style-type: none"> • barn a dewisiadau unigolyn sydd ag anghenion gofal a chymorth; • dull sy'n canolbwyntio ar y dinesydd; • dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. <p>1.4.6. Addasu ei farn broffesiynol ei hun os cyflwynir tystiolaeth newydd;</p> <p>1.4.7. Defnyddio tystiolaeth ymchwil wrth ffurfio barn broffesiynol.</p>
1.5 Gallu defnyddio myfyrio beirniadol i werthuso ei ddadansoddiad ei hun mewn asesiadau gwaith cymdeithasol	<p>1.5.1. Defnyddio myfyrio beirniadol i werthuso ymarfer personol dadansoddi mewn asesiadau gwaith cymdeithasol gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwneud llais yr unigolyn yn ganolog i'r asesiad; • ymarfer sy'n seiliedig ar werthoedd; • canolbwyntio ar effaith a chanlyniadau i'r unigolyn; • ymarfer moesegol gan gynnwys rheoli penblethau moesegol; • hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth; • cefnogi dewis iaith; • cefnogi cyfathrebu; • y fframwaith deddfwriaethol, polisiau a gweithdrefnau mewn gwaith cymdeithasol; • rhoi gwybodaeth yng nghyd-destun pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth mewn maes gwaith; • defnyddio tystiolaeth ymchwil berthnasol yn yr asesiad; • defnyddio Goruchwyliaeth a mentora er mwyn canfod anghenion datblygu eraill; • asesu risg; • sgiliau eraill a ddefnyddir wrth asesu. <p>1.5.2. Defnyddio gwerthusiad o ymarfer personol o ddadansoddi mewn asesiadau gwaith cymdeithasol i ganfod ei gryfderau ei hun a meysydd ar gyfer dysgu a datblygu;</p> <p>1.5.3. Llunio ei gynllun dysgu a datblygu proffesiynol ei hun.</p>
Cyfeirnod NOS	<p>Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) Gwaith Cymdeithasol 2011</p> <p>2 - Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio</p> <p>4 - Ymarfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol</p> <p>5 - Rheoli materion moesegol, penblethau a gwrthdaro</p> <p>7 - Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol yn ymwneud â phobl</p> <p>12 - Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sydd ynghlwm</p> <p>15 - Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb.</p>
Diffiniad o'r termau	<p>- Mae fframweithiau deddfwriaethol yn cynnwys y ddeddfwriaeth a'r canllawiau sydd gyda'i gilydd yn diffinio cyfrifoldebau ac atebolrwydd gweithwyr cymdeithasol mewn perthynas â maes ymarfer.</p> <p>- Dylai safonau gynnwys y <i>Codau Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol</i>.</p> <p>- Mae canllawiau yn cynnwys <i>Y Gweithiwr Cymdeithasol – Canllawiau ymarfer ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru</i>.</p> <p>- Mae ymarfer personol yn golygu ymarfer yr ymgeisydd.</p>

Teitl	2. Cydweithio â phobl sy'n cael gofal a chymorth, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill
Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr yn:	Meini prawf asesu Gall y dysgwr:
2.1 Gallu cyfathrebu'n effeithiol gyda phobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr	<p>2.1.1 Baratoi yn llawn ar gyfer bod yn rhan o waith cymdeithasol;</p> <p>2.1.2 Sefydlu trefniadau cydgyhyrchu a phartneriaeth fel sail i gyfathrebu effeithiol mewn amgylchiadau amrywiol;</p> <p>2.1.3 Dangos defnydd o ddulliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau wrth ymgysylltu ag unigolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, a'u gofalwyr;</p> <p>2.1.4 Gofyn am gymorth os nad yw'r gweithiwr yn gallu defnyddio'r dull cyfathrebu sy'n cael ei ffafrio;</p> <p>2.1.5 Dangos sgiliau cyfathrebu sy'n ystyried dewis iaith a diwylliant;</p> <p>2.1.6 Dangos sgiliau cyfathrebu sy'n dangos parch dyledus at oedran, ethnigrwydd, diwylliant, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, crefydd neu gred, dealltwriaeth ac anghenion;</p> <p>2.1.7 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i helpu i reoli sefyllfaoedd lle mae trallod, gelyniaeth neu wrthwynebiad;</p> <p>2.1.8 Defnyddio sgiliau cyfathrebu i gadarnhau bod dymuniadau a dewisiadau unigolion gofalwyr wedi cael eu deall;</p> <p>2.1.9 Adlewyrchu canlyniadau llesiant, barn, dewisiadau a theimladau unigolion a gofalwyr mewn cofnodion, gohebiaeth a chynlluniau;</p> <p>2.1.10 Disgrifio sut mae eu harferion cyfathrebu wedi newid a datblygu ers cymhwyso.</p>
2.2 Gallu gweithio mewn partneriaeth ag unigolion a gweithwyr proffesiynol eraill	<p>2.2.1 Egluro rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd proffesiynol gweithwyr proffesiynol eraill;</p> <p>2.2.2 Cyfathrebu mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn parchu ffiniau cyfreithiol, moesegol, sefydliadol a phroffesiynol mewn cyd-destun amlddisgyblaethol;</p> <p>2.2.3 Dangos y gallu i weithio mewn partneriaeth â phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth, eu gofalwyr a chymunedau;</p> <p>2.2.4 Dangos parch tuag at sgiliau, arbenigedd a chyfraniadau cydweithwyr yn ei sefydliad ei hun a gyda gweithwyr proffesiynol eraill;</p> <p>2.2.5 Cynnal rôl a swyddogaeth gwaith cymdeithasol a chael barn annibynnol;</p> <p>2.2.6 Cymhwyso'r protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • o fewn ei sefydliad ei hun; • rhwng asiantaethau yng nghyd-destun gwaith amlasiantaeth.
2.3 Myfyrio'n feirniadol ar ei gydweithio ei hun	<p>2.3.1 Myfyrio'n feirniadol ar ei berfformiad ei hun wrth gydweithio, nodi meysydd ymarfer da a rhai i'w datblygu, yn ystod gwaith gyda:</p> <ul style="list-style-type: none"> • phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth; • gofalwyr; • eiriolwyr; • cydweithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.

Teitl	2. Cydweithio â phobl sy'n cael gofal a chymorth, gofawyr a gweithwyr proffesiynol eraill
Cyfeirnod NOS	Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) Gwaith Cymdeithasol 2011 6 - Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol 8 - Paratoi ar gyfer ymgysylltiad gwaith cymdeithasol 9 - Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol 10 - Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu 11 - Eirioli ar ran pobl eraill 12 - Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sydd ynghlwm 15 - Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb.
Diffiniad o'r termau	Mae dulliau cyfathrebu yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • cyfathrebu geiriol; • cyfathrebu di-eiriau; • ieithoedd gwahanol; • defnyddio symbolau; • cyfathrebu ysgrifenedig. Gall cymunedau gynnwys: Grwpiau neu sefydliadau cymunedol ac eraill sy'n cael eu hystyried yn bwysig gan y sawl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol Gall gweithwyr proffesiynol eraill gynnwys: Meddygon, nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, plismyn, athrawon, cyfreithwyr, staff tai, eiriolwyr, gweithwyr gofal cymdeithasol eraill neu weithwyr cymdeithasol.

Teitl	3. Ymyrryd a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth
Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr yn:	Meini prawf asesu Gall y dysgwr:
3.1. Deall y berthynas rhwng polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chanllawiau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru	3.1.1 Werthuso sut mae polisi cymdeithasol, fframweithiau deddfwriaethol a chanllawiau yn sail i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • y ddeddfwriaeth gyfredol sy'n berthnasol i faes gwasanaethau cymdeithasol; • diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion; • diogelu data a rhannu gwybodaeth; • cydsynio a datgelu. 3.1.2 Amlinellu'r rhyngwyneb rhwng y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a'r ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol: <ul style="list-style-type: none"> • yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig; • yn yr Undeb Ewropeaidd; • y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

Teitl	3. Ymyrryd a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth
Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr yn:	Meini prawf asesu Gall y dysgwr:
3.2. Gallu rheoli ei rôl fel gweithiwr cymdeithasol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth	3.2.1. Nodi'r ffactorau a allai gynyddu cymhlethdod mewn gwaith cymdeithasol; 3.2.2. Gwerthuso sut y defnyddir fframweithiau deddfwriaethol, safbwyntiau damcaniaethol, tystiolaeth ymchwil, modelau ar gyfer ymyrryd, safonau a chanllawiau fel sail i'w ymarfer ei hun wrth ymdrin â sefyllfaoedd cynyddol gymhleth; 3.2.3. Ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol o fewn ffiniau proffesiynol, cyfreithiol a sefydliadol mewn sefyllfa gymhleth; 3.2.4. Dangos dyfalbarhad a phendrantrwydd mewn ymyriadau mewn sefyllfa gymhleth; 3.2.5. Negodi gyda phobl eraill er mwyn dod i benderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth; 3.2.6. Gwneud argymhellion a phenderfyniadau amserol o fewn ffiniau ei gyfrifoldebau mewn sefyllfa gymhleth; 3.2.7. Gwneud cynlluniau wrth gefn i ragweld ac ymateb i newid mewn amgylchiadau mewn sefyllfaoedd cymhleth; 3.2.8. Defnyddio goruchwyliaeth a mentora i ystyried a rheoli ymyriadau a barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cymhleth; 3.2.9. Myfyrio'n feirniadol ar ei berfformiad ei hun mewn sefyllfaoedd cymhleth er mwyn: <ul style="list-style-type: none"> • adnabod meysydd ymarfer da; • nodi meysydd ymarfer y mae angen eu datblygu; • datblygu a chryfhau gwytnwch personol.
3.3. Deall rôl gwaith cymdeithasol proffesiynol yng nghyswllt diogelu oedolion sydd mewn perygl.	3.3.1 Egluro polisiâu a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol sy'n ymwneud â diogelu oedolion; 3.3.2 Deall y fframwaith cyfreithiol sy'n gysylltiedig â diogelu oedolion; 3.3.3 Dadansoddi'r ffactorau a allai nodi bod oedolyn mewn perygl o gael niwed, neu o gael ei esgeuluso neu ei gam-drin; 3.3.4 Disgrifio dangosyddion esgeuluso, cam-drin neu niwed i oedolion; 3.3.5 Egluro pwysigrwydd sefydlu canlyniadau a ffefrir yr ymyriad diogelu ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> • pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth; • gofawyr.
3.4. Deall rôl gwaith cymdeithasol proffesiynol yng nghyswllt diogelu plant sydd mewn perygl	3.4.1. Egluro polisiâu a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol sy'n ymwneud â diogelu plant sydd mewn perygl; 3.4.2. Deall y fframwaith cyfreithiol sy'n gysylltiedig â diogelu plant sydd mewn perygl; 3.4.3. Dadansoddi'r ffactorau a allai nodi bod plentyn mewn perygl o gael niwed, neu o gael ei esgeuluso neu ei gam-drin; 3.4.4. Disgrifio dangosyddion esgeuluso, cam-drin neu niwed i blant; 3.4.5. Egluro pwysigrwydd sefydlu'r canlyniadau a ffefrir yr ymyriad diogelu ar gyfer plant, teuluoedd a gofawyr ag anghenion cymorth.
3.5. Gallu ymarfer y rôl gwaith cymdeithasol proffesiynol mewn ymyriadau diogelu	3.5.1. Cynnal asesiad, gydag eraill, yn ymwneud â diogelu oedolyn neu blentyn. Wrth wneud hyn bydd yn: <ul style="list-style-type: none"> • gweithredu yn unol â'r gofynion cyfreithiol, sefydliadol a phroffesiynol; • canolbwyntio ar y sawl sydd mewn perygl; • ymarfer pendrantrwydd proffesiynol wrth wneud penderfyniadau proffesiynol. 3.5.2. Cyfrannu tuag at gynllun cymorth ac ymyriad ar gyfer oedolyn neu blentyn; 3.5.3. Cyfrannu tuag at y gwaith o werthuso ymyriadau diogelu.

Teitl	3. Ymyrryd a chymhwyso barn broffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth
Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr yn:	Meini prawf asesu Gall y dysgwr:
3.6. Gallu cyfrannu tuag at brosesau cyfreithiol o fewn cylch gorchwyl gwaith cymdeithasol proffesiynol	3.6.1. Egluro rôl a chylch gorchwyl prosesau cyfreithiol mewn gwaith cymdeithasol gyda phlant ac oedolion sydd mewn perygl; 3.6.2. Dadansoddi rôl y gweithiwr cymdeithasol mewn prosesau cyfreithiol yng nghyswllt: • plant; • oedolion. 3.6.3. Cyfrannu barn broffesiynol i asesiad mewn achos a allai fod â phrosesau cyfreithiol; 3.6.4. Cyfrannu barn broffesiynol i adroddiad sy'n cael ei baratoi ar gyfer prosesau cyfreithiol.
3.7. Gallu ymarfer atebolwydd proffesiynol mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth	3.7.1. Crynhoi gofynion atebolwydd proffesiynol gweithwyr cymdeithasol; 3.7.2. Cymhwyso'r <i>Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol</i> a Chanllawiau Ymarfer mewn sefyllfaoedd cynyddol gymhleth; 3.7.3. Defnyddio goruchwyliaeth a chanllawiau i fyfyrion feiniadol ar: • atebolwydd proffesiynol; • datblygiad proffesiynol. 3.7.4. Cwblhau cofnodion ac adroddiadau cywir, effeithiol, cydlynol a dadansoddol o ymyriadau gwaith cymdeithasol sy'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a sefydliadol; 3.7.5. Dilyn gweithdrefnau sefydliadol i sicrhau diogelwch personol yn y rôl broffesiynol.
Cyfeirnod NOS	Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) Gwaith Cymdeithasol 2011 2 - Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio 3 - Rheoli eich rôl fel gweithiwr cymdeithasol proffesiynol 4 - Ymarfer barn broffesiynol mewn gwaith cymdeithasol 5 - Rheoli materion moesegol, penblethau a gwrthdaro 6 - Ymarfer gwaith cymdeithasol mewn cyd-destunau amlddisgyblaethol 7 - Paratoi adroddiadau a chofnodion proffesiynol yn ymwneud â phobl 8 - Paratoi ar gyfer ymgysylltiad gwaith cymdeithasol 9 - Cynnwys pobl mewn ymarfer gwaith cymdeithasol 10 - Cynorthwyo pobl i gymryd rhan mewn prosesau penderfynu 11 - Eirioli ar ran pobl eraill 12 - Asesu anghenion, risgiau ac amgylchiadau mewn partneriaeth â'r rheiny sydd ynghlwm 13 - Ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth 14 - Cynllunio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â materion tymor byr a thymor hwy 15 - Cytuno ar gynlluniau rheoli risg i hybu annibyniaeth a chyfrifoldeb 16 - Cytuno ar gynlluniau lle mae risg o niwed neu gamdriniaeth 17 - Cymhwyso dulliau a modelau ymyrraeth gwaith cymdeithasol i hybu newid 18 - Cael mynediad at adnoddau i gynorthwyo canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn 19 - Gwerthuso canlyniadau ymarfer gwaith cymdeithasol

Diffiniad o'r termau	<p>Rhaid i fframweithiau deddfwriaethol gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deddfwriaeth yn ymwneud â darparu gwasanaethau cymdeithasol yng nghyswllt galluedd meddyliol, oedolion, plant a theuluoedd; • Y Ddeddf Hawliau Dynol; • Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; • Deddfwriaeth Cydraddoldeb; • Iechyd a Diogelwch. <p>Darparu gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • maes gwaith cymdeithasol penodol; • diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion; • diogelu data a rhannu gwybodaeth; • cydsynio a datgelu. <p>Dylai'r safonau gynnwys y <i>Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol</i> a Chanllawiau Ymarfer i weithwyr cymdeithasol</p> <p>Bydd polisiâu a gweithdrefnau cenedlaethol, lleol a sefydliadol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • canllawiau cenedlaethol; • polisiâu a gweithdrefnau diogelu; • cyfrinachedd; • gwaith amlasiantaeth; • cofnodi; • rhyddid gwybodaeth a diogelu data. <p>Mae Erail yn golygu gweithwyr proffesiynol eraill a fyddai'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol neu weithwyr eraill sy'n gysylltiedig ag asesiadau sy'n ymwneud â diogelu.</p> <p>Mae Prosesau Cyfreithiol yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • prosesau a allai arwain at achos llys neu achos cyfreithiol arall; • ymchwiliadau neu ymyriadau a gynhelir o fewn proses gyfreithiol ddiffiniedig (e.e. diogelu neu wasanaethau ôl-ofal iechyd meddwl). <p>Mae atebolwydd proffesiynol i'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y cyflogwr; • corff rheoleiddio; • pobl ag anghenion gofal a chymorth a'u gofalwyr; • tîm amlddisgyblaethol; • gwaith cymdeithasol fel proffesiwn.
-----------------------------	--